# EVANS, DAVID ('yr ail '; 1814 - 1847), gweinidog Wesleaidd

**Enw:** David Evans
**Dyddiad geni:** 1814
**Dyddiad marw:** 1847
**Priod:** Elizabeth Evans (née Williams)
**Plentyn:** Annie Maria Evans
**Plentyn:** David Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Wesleaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Griffith Thomas Roberts

Ganwyd 2 Mehefin 1814 yn Abercegir. Wedi iddo fod yn bregethwr cyflogedig yn Aberystwyth, derbyniwyd ef i'r weinidogaeth yn 1835, a bu'n efrydydd yn Sefydliad Diwinyddol Hoxton (1836-8). Gweinidogaethodd ar gylchdeithiau Aberteifi (1838), yr Wyddgrug (1840), Manceinion (1841), a Llanidloes (1844). Yn ystod ei dymor yn Llanidloes, bu'n oruchwyliwr y llyfrfa (1844) ac yn golygu 'r *Eurgrawn Wesleyaidd* (1845-6).

Brwydrodd ag afiechyd am flynyddoedd; pallodd ei iechyd i ddechrau yn ystod ei dymor yn Hoxton, ac ar ddiwedd ei dymor ym Manceinion gorfu iddo ymneilltuo o'r weinidogaeth reolaidd am flwyddyn (1843), a thrachefn ar derfyn ei dymor yn Llanidloes (Awst 1847). Priododd Elizabeth Williams, Aberystwyth, yn 1841, a ganed iddynt fab a merch (David ac Annie Maria). Cyhoeddodd *Duwdod Priodol ein Harglwydd Iesu Grist* (1840) i wrthweithio dylanwadau Undodaidd ar Wesleaid Abertawe; cyhoeddwyd ei draethawd ar ' Pechod Gwreiddiol ' yn *Eurgrawn* 1855. Bu farw yn Aberystwyth 12 Medi 1847.

## Awdur

**Y Parchedig Griffith Thomas Roberts**, (1887 - 1977)

## Ffynonellau


*Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, 1849, 289-93, 321,4; 1869, 509-10

Hugh Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig* (1911–3), ii, 840-3

J. Jones, *Y Bywgraffydd Wesleyaidd yn cynwys bras-hanes am un a thriugain o weinidogion Wesleyaidd Cymreig yn nghyda 35 o weinidogion a gwyr lleyg Saesonig* (Machynlleth 1866), 85-6


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732812


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu